



ADEILADU SYLFEINI PARHAOL I GEFNOGI DATBLYGU CYFLEUSTERAU

Bydd rhoi amser i adolygu meysydd allweddol o'ch clwb nid yn unig yn eich cefnogi i fod yn y sefyllfa orau bosib ar gyfer datblygu cyfleuster neu brosiect ond, yn bwysicach fyth, gall eich helpu i adeiladu sylfeini cadarn a fydd yn sicrhau bod eich clwb yn cael ei adeiladu ar gyfer y dyfodol.



Mae cyfleusterau pêl droed yn cynnig gofod lle gall y gymuned ddod at ei gilydd a bod yn unedig wrth chwarae'r gêm hardd. Gall prosiectau cyfleusterau amrywio o osod ffensys bach ac unedau storio yn eu lle i ddatblygiadau mwy fel draeniad tir neu Drosglwyddo Asedau Cymunedol (CATs).

Waeth beth yw maint a graddfa prosiect eich clwb, mae'n bwysig deall pam mae'r clwb yn cychwyn ar y siwrnai hon. Y rheswm efallai yw i wella'r profiad mae aelodau cyfredol eich clwb yn ei gael. Efallai ei fod hefyd i gefnogi pobl leol i gynnal lefelau da o les corfforol a meddyliol. Beth bynnag yw eich rheswm, mae'n bwysig gwybod pam a gallu cyfleu hyn i eraill.

Mae llawer o flociau adeiladu'n rhan o glwb da a gall pob bloc eich helpu chi i ddatblygu sylfeini parhaol. Felly, mae'n bwysig cymryd eich amser i adlewyrchu ar y rhain. Efallai y bydd rhai blociau'n ymddangos yn fwy heriol nag eraill ond peidiwch â dychryn. Bydd y rhestr wirio hon yn cyflwyno rhai cwestiynau sy'n procio'r meddwl i chi ac aelodau eich pwyllgor / bwrdd. Dewiswyd y cwestiynau hyn i'ch helpu chi i ystyried beth sydd angen i chi ei adolygu ac adlewyrchu arno yn ogystal â symud ymlaen a gweithredu. Efallai bod y broses hon yn fwy addas i eraill yn eich pwyllgor sydd â sgiliau arbenigol yn y gwahanol flociau y cyfeirir atynt. Fel arall, efallai y byddwch chi'n penderfynu bod angen rhywfaint o gefnogaeth arbenigol gyda rhai meysydd ac mae hyn yn iawn hefyd.

Efallai y bydd cymryd amser nawr, i adolygu ac adlewyrchu, cyn ymgolli mewn prosiect cyfleuster yn helpu i arbed amser a rhyddhau adnoddau ychwanegol yn nes ymlaen. Ni ddylid adolygu'r blociau adeiladu sylfaenol a amlinellir yn y ddogfen hon at ddibenion prosiect cyfleusterau yn unig, ond dylid eu hadolygu'n gyson i'ch helpu chi a'ch clwb i ddeall pa mor effeithlon ac effeithiol ydych chi fel clwb. Mae ymgymryd â'r broses hon hefyd yn dangos dyhead clybiau i dyfu a datblygu tuag at eu nodau a'u huchelgeisiau.

Bydd annog aelodau pwyllgor / bwrdd eich clwb i adlewyrchu ar sefyllfa'r clwb yn helpu i nodi meysydd cryfder yn ogystal â meysydd i'w gwella. Bydd hyn yn eich helpu i adeiladu achos o unrhyw amser, personél neu adnoddau ychwanegol posib sy'n ofynnol i gefnogi prosiect cyfleuster. Bydd hefyd yn helpu i adeiladu'r sylfeini parhaol hynny.

Bydd cwblhau'r broses rhestr wirio hon yn annog aelodau eich pwyllgor neu eich bwrdd i edrych ar y clwb mewn ffordd gyfannol, a datblygu cynaliadwyedd tymor hir eich clwb a'ch cymuned leol.



CYNNWYS

1. **ENDID CYFREITHIOL**
2. **LLYWODRAETHU DA**
3. **POLISIŌAU A GWEITHDREFNAU**
4. **BUDD CYMUNEDOL**
5. **POBL Y CLWB**
6. **CYLLID Y CLWB**
7. **CYNLLUNIO BUSNES**
8. **ADNABOD RISG**



1. ENDID CYFREITHIOL

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Sut mae'r clwb yn gweithredu ac yn diogelu pobl y clwb?</p>	<p>Mae cyfran fawr o glybiau llawr gwlad yn gweithredu fel cymdeithas anghorfforedig, sy'n golygu nad yw'r clwb yn endid cyfreithiol, felly gall unrhyw atebolwydd fod yn gyfrifoldeb uniongyrchol i aelodau unigol yn y clwb.</p> <p>Dylai clybiau sydd eisiau ystyried unrhyw fath o brosiect cyfleuster benderfynu pa endid cyfreithiol fydd fwyaf addas ar gyfer y prosiect yn ogystal ag unrhyw uchelgeisiau ychwanegol a allai fod gan y clwb yn y dyfodol.</p> <p>Mae'n bwysig bod clybiau'n gweithredu o fewn eu gallu a bod unrhyw atebolwydd yn gyfyngedig. Argymhellir gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol.</p>	<p>Darganfyddwch pa gyfrifoldebau, atebolwydd a rhwymedigaethau cyfreithiol, fel contractau, sydd gan y clwb eisoes efallai, neu y mae'n ystyried ymrwymo iddynt.</p> <p>Adolygwch y Matrics Cyfreithiol sydd wedi'i greu gan ein partner Loosemores i gael gwybod mwy am y gwahanol endidau cyfreithiol.</p>	

Cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol

- [Statws Cyfreithiol - Atebion Clwb](#)



2. LLYWODRAETHU DA

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Beth mae'r clwb yn sefyll drosto?</p>	<p>Dylai clybiau fod â chyfansoddiad yn ei le sy'n amlinellu'r canlynol fel isafswm:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwrpas y clwb (gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd) • Sut mae'r clwb yn bwriadu gweithredu • Ar gyfer pwy mae'r clwb • Pa ddull(iau) mae'r clwb yn eu defnyddio i wneud penderfyniadau allweddol <p>Dylai'r cyfansoddiad y mae'r clwb yn cadw ato wrth weithredu fod yn briodol ar gyfer llywodraethu a gweithredu'r clwb hwnnw.</p> <p>Ar gyfer clybiau sydd eisoes yn gweithredu o fewn strwythur(au) cyfreithiol penodol neu sydd â statws treth arbennig, dylai'r pwrpas a'r strwythur fodloni'r gofynion a nodwyd sydd wedi'u hamlinellu gan Dŷ'r Cwmnïau neu'r Comisiwn Elusennau.</p>	<p>Ystyriwch adolygu dogfennau llywodraethu'r clwb, gan gynnwys y cyfansoddiad, yn flynyddol. Bydd hyn yn helpu'r clwb i barhau'n addas i'r diben a chyd-fynd â'r gymuned ehangach.</p>	
<p>Sut mae'r clwb yn cofnodi penderfyniadau allweddol a wneir? Sut mae'r rhain yn cael eu rhannu ag aelodau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach?</p>	<p>Gall clybiau benderfynu pa mor aml maent yn cwrdd i drafod materion. Fel canllaw, argymhellir cyfarfod bedair gwaith y tymor o leiaf.</p> <p>Ar gyfer unrhyw gyfarfod y mae clwb yn ei gynnal, dylid cofnodi'r canlynol fel isafswm: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwy oedd yn bresennol? • Pa bynciau a drafodwyd? • Sut gwnaed penderfyniadau allweddol, gan gynnwys pwy a gymeradwyodd / wrthododd gynigion? • Oedd unrhyw gamau gweithredu yn y dyfodol? <p>Mae nodi'r uchod wedi'u hamlinellu'n glir, eu cofnodi a'u rhannu, yn darparu tryloywder i aelodau cyfredol, rhanddeiliaid a phartneriaid cyllido posib yn y dyfodol. Ystyriwch gael tudalen bwrsol ar wefan / sianeli cyfryngau cymdeithasol y clwb lle mae cofnodion a phwyntiau trafod yn cael eu huwchlwytho a'u rhannu'n rheolaidd.</p>	<p>Edrychwch i weld sut gall y clwb dynnu allan y darnau pwysicaf o wybodaeth o'ch cyfarfod sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'ch aelodau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach neu'n effeithio arnynt.</p>	



2. LLYWODRAETHU DA

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Beth mae eich clwb yn ei wneud i roi gwybodaeth gyson i aelodau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach am eich clwb a pha weithgareddau rydych chi'n eu cynnig?</p>	<p>Mae cyfathrebu a thryloywder yn allweddol. Mae'n arfer da i'r clwb sicrhau bod cysylltiad drwy gyfathrebu am beth sy'n digwydd yn rheolaidd. Gall rhoi gwybodaeth gyson i aelodau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach helpu gyda meithrin perthnasoedd a datblygu ymddiriedaeth.</p>	<p>Holwch Oes gan y clwb gynllun cyfathrebu. Os oes gennych gynllun, dechreuwch adolygu ei effeithiolrwydd. Ydi'n parhau'n addas i'r diben ac yn cyflawni'r nodau a amlinellwyd i ddechrau?</p> <p>Os nad oes gan y clwb gynllun ar waith, gallai fod yn rhywbeth i'w ystyried. Mae mapio pwy mae'r clwb eisiau cysylltu â hwy, pa mor aml a thrwy ba ddulliau yn fannau cychwyn gych.</p>	
<p>Sut ydych chi'n casglu meddyliau a barn gan bobl o'r tu allan i'r clwb?</p>	<p>Gall ymgorffori diwylliant gwrando yn y clwb helpu i gasglu syniadau newydd. Gall helpu i ddatblygu cyfeiriad y clwb ac yn bwysicach fyth gall gefnogi gyda meithrin perthnasoedd a datblygu ymddiriedaeth.</p>	<p>Adolygwch pa gyfleoedd gwrando sydd gan y clwb yn eu lle. Nid oes angen i'r rhain o reidrwydd fod yn sesiynau wyneb yn wyneb penodol; gallant hefyd fod drwy bôl, arolwg neu hyd yn oed fore coffi ar-lein.</p>	

Additional support and resources

- [Cyfansoddiad Clwb Enghrefftiol - CBDC](#)
- [Llywodraethu ac arwain - WCVA](#)
- [Gweledigaeth a Gwerthoedd - Atebion Clwb](#)
- [Cyfarfodydd Clwb - Atebion Clwb](#)
- [Cymryd Cofnodion - Atebion Clwb](#)



3. POLISIAU A GWEITHDREFNAU

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Oes gan y clwb egwyddorion arweiniol yn eu lle a dull i reoli a delio â digwyddiadau clwb ehangach?</p>	<p>Mae'n bwysig bod clybiau'n cydymffurfio â deddfau a rheoliadau sy'n berthnasol ac yn benodol i bêl droed yn ogystal â dilyn polisiau a gweithdrefnau sydd y tu allan i'r gêm hefyd.</p> <p>Dylai clybiau fod ag egwyddorion arweiniol clir a phrosesau atebol yn eu lle i alluogi cynllunio effeithlon ac i liniaru unrhyw risg.</p>	<p>Adolygwch y polisiau a'r gweithdrefnau cyfredol sydd gan y clwb yn eu lle. Pryd cawsant eu creu? Ydyn nhw'n berthnasol o hyd?</p> <p>Un man cychwyn da lle gallwch chi gymharu'r hyn sydd gennych chi ac efallai'r hyn sydd ar goll yw drwy adolygu'r ddogfen 'Cyfarwyddyd Clwb' a amlinellir yn yr adran adnoddau a chefnogaeth ychwanegol.</p> <p>Os yw'r clwb yn cael ei lywodraethu gan y Comisiwn Elusennau neu Dŷ'r Cwmnïau, efallai y bydd polisiau a gweithdrefnau gorfodol, felly mae'n bwysig cysylltu â'r sefydliadau hyn hefyd.</p>	
<p>Oes gan staff a gwirfoddolwyr swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir?</p> <p>Pa gynllunio olyniaeth sydd ar waith i ystyried pobl yn gadael?</p>	<p>Mae darparu swyddogaethau a chyfrifoldebau i wirfoddolwyr yn helpu'r clwb i amlinellu sut mae eisiau i'r gwirfoddolwyr gefnogi ond mae hefyd yn rhoi eglurder i wirfoddolwyr am yr hyn sy'n ofynnol. Os nad oes gennych gynllun yn ei le, pan fydd gwirfoddolwr allweddol yn gadael, yn aml gall roi pwysau ychwanegol ar wirfoddolwyr presennol i ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau. Gallwch hefyd ddarganfod, yn y panig i recriwtio rhywun newydd i rôl, mai'r hyn sydd gennych chi yn y pen draw yw gwirfoddolwr anaddas neu sy'n cael ei lethu'n gyflym iawn.</p>	<p>Rhaid i chi ddeall pa swyddogaethau a chyfrifoldebau sydd wedi'u hamlinellu ar gyfer y gwirfoddolwyr presennol. Aseswch a yw'r rhain yn berthnasol o hyd ond yn bwysicach fyth, adlewyrchwch y tasgau mae gwirfoddolwyr yn eu cyflawni.</p> <p>Dysgwch fwy am y pwnc hwn drwy ymweld â'n hadran Gwirfoddoli ar wefan Clwb Cymru.</p>	



3. POLISIAU A GWEITHDREFNAU

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Oes gan y clwb egwyddorion arweiniol a dulliau yn eu lle i reoli a delio â chyllid?</p>	<p>Dylai clybiau hefyd fod â mesurau rheoli priodol yn eu lle sy'n diogelu ac yn lleihau risg ariannol.</p> <p>Mae sicrhau bod cyfrifon yn cael eu hadolygu'n annibynnol yn flynyddol yn darparu lefel ychwanegol o archwilio. Gall hyn helpu i adnabod risgiau a darparu integriti wrth rannu gydag aelodau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach.</p> <p>Yn dibynnu ar y statws cyfreithiol / statws treth arbennig sydd wedi'i fabwysiadu, efallai y bydd yn ofynnol i'r clwb ddangos y lefel hon o atebolrwydd drwy Dŷ'r Cwmnïau a / neu'r Comisiwn Elusennau.</p>	<p>Ystyriwch adlewyrchu ar rai o'r cwestiynau isod: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa mor rheolaidd mae cyfrif y clwb yn cael ei wirio? • Oes gan y clwb ei gyfrif banc ei hun? • Oes mwy nag un llofnodwr ar gyfrif y clwb? • Ydi'r cyfrifon blynyddol yn cael eu crynhoi a'u rhannu ar gyfer y cynulleidfa oedd / sefydliadau perthnasol? 	

Cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol

- [Cyfarwyddyd Clwb - CBDC](#)
- [WCVA Polisiau a Gweithdrefnau WCVA](#)
- [Sefydlu a rhedeg elusen: Arian, treth a chyfrifon elusen - gwybodaeth fanwl - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)
- [Cyfrifon a ffurflenni treth ar gyfer cwmnïau cyfyngedig preifat - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)



4. BUDD/PWRPAS CYMUNEDOL

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Ar gyfer pwy mae eich clwb yn bodoli?</p> <p>Ar gyfer beth mae eich clwb yn bodoli?</p>	<p>Mae clybiau fel rheol yn gweithredu ar gyfer aelodau yn eu cymuned leol, ac mae'n hanfodol bod y gwaith o recriwtio aelodau yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.</p> <p>Yn dibynnu ar y strwythur cyfreithiol mae'r clwb yn ei gynnal, efallai y bydd angen i glybiau gadw at agweddau ychwanegol perthnasol i aelodaeth.</p> <p>Mae'n bwysig bod y clwb yn dangos ei fod yn gweithredu ar gyfer y bobl leol a'r gymuned ehangach.</p>	<p>Edrychwch ar y swyddogaethau adrodd yn COMET i greu darlun o'ch aelodau cyfredol. Beth yw'r ddemograffeg ar y cyd? Ble mae'r rhan fwyaf o'ch aelodau'n byw?</p> <p>Efallai y gwelwch chi fod rhai bylchau o ran pwy mae eich clwb yn eu denu ar hyn o bryd. Efallai y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch helpu chi i gynllunio sut gallwch chi wneud eich clwb yn fwy deniadol a chynhwysol ar gyfer cynulleidfa ehangach.</p>	
<p>Beth yw effaith y clwb yn y gymuned leol?</p>	<p>Gall cyfleuster a gweithgarwch clwb fod wrth galon cymuned felly mae'n bwysig eich bod chi'n dechrau deall beth yw eich cyfrifoldebau yn eich cymuned a'r effaith rydych chi'n ei chael ar hyn o bryd neu y gallech chi ei chael yn y dyfodol.</p> <p>Dylai clybiau ddechrau casglu a dangos tystiolaeth o'u heffaith yn y gymuned leol. Bydd hyn yn werthfawr wrth gyfiawnhau'r achos dros fuddsoddiad ychwanegol, neu greu neu barhau â chyfleoedd cyfleusterau neu bartneriaid.</p>	<p>Efallai bod eich clwb wedi cwblhau arolwg, pŵl neu sesiwn gwranddo. Os ydych chi wedi gwneud hyn, gallai fod yn amser da i adolygu'r canfyddiadau, nodi'r effaith yn ogystal â lle mae potensial i greu effaith.</p> <p>Os nad ydych chi wedi cwblhau'r math yma o ymarfer o'r blaen, edrychwch i weld sut gallwch chi ddarganfod pa effaith rydych chi'n ei chael drwy arolwg, pŵl neu sesiwn gwranddo. Gallai'r math yma o wybodaeth fod yn bersonol neu'n ddigidol. Dechreuwch ar raddfa fechan, a gweithio gyda'ch aelodau presennol i ddechrau, wedyn ehangu i randdeiliaid, noddwyr a phartneriaid, cyn ystyried sut byddwch chi'n canfod y farn am eich effaith gan y gymuned ehangach.</p>	



4. BUDD/PWRPAS CYMUNEDOL

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau?
Gyda phwy mae'r clwb yn cysylltu yn lleol?	<p>Gall meithrin perthnasoedd a chydweithio arwain at nifer o fuddion i bawb sy'n cymryd rhan. Bydd dangos dyheadau, gallu a chynhyrchiant y clwb i gysylltu â busnesau, pobl, partneriaid a grwpiau lleol yn profi'n werthfawr wrth edrych ar ddatblygu cyfleusterau.</p> <p>Mae ymgysylltu â'r gymuned yn hollbwysig ac mae'n rhaid iddo fod o fudd a chefnogi pawb dan sylw. Mae gan glybiau lawer o bwyntiau gwerthu unigryw, mae'n bwysig fel clwb eich bod chi'n gwybod beth yw'r rhain ac yn eu defnyddio i gefnogi cysyniadau a mentrau ehangach.</p>	<p>Lluniwch restr o'r gwahanol bartneriaid, busnesau, grwpiau cymunedol a sefydliadau mae'r clwb wedi gweithio â hwy o'r blaen yn ogystal â'r rhai mae'n gweithio â hwy ar hyn o bryd.</p> <p>Edrychwch ar y buddion, y llwyddiannau a'r gwersi a ddysgwyd o gysylltiadau blaenorol a chyfredol.</p> <p>Rhowch ychydig o amser i adolygu'r adran Ymgysylltu â'r Gymuned i ddarganfod mwy am bwy y gallai'ch clwb eu nodi, cysylltu â hwy, a gweithio â hwy.</p>	
Sut mae'r gymuned leol yn gweld y clwb?	<p>Gall barn y gymuned am y clwb gael dylanwad ac effaith sylweddol ar benderfyniadau allweddol a wneir gan yr awdurdod lleol, cynghorau a chyllidwyr.</p> <p>Ar gyfer unrhyw ddatblygiad cyfleuster, bydd yn hanfodol bod y clwb yn gallu dangos ei rôl yn y gymuned a'i effaith ar bobl leol.</p>	<p>Cofnodwch feddyliau trigolion, busnesau, sefydliadau a grwpiau cymunedol drwy greu amgylchedd sy'n galluogi'r clwb i wrando ar farn ac awgrymiadau gan y gwahanol grwpiau hynny.</p> <p>Dechreuwch greu darlun eang a barn am y clwb, gan nodi ei gryfderau yn ogystal â meysydd sy'n peri pryder neu angen gwelliant.</p>	

Cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol

- [Cyfarwyddyd Clwb - CBDC](#)
- [Polisiau a gweithdrefnau - NCVO Knowhow](#)
- [Llawlyfr gweithdrefnau ariannol - NCVO Knowhow](#)
- [Sefydlu a gweithredu elusen: Arian, treth a chyfrifon elusen - gwybodaeth fanwl - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)
- [Cyfrifon a ffurflenni treth ar gyfer cwmnïau cyfyngedig preifat - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)
- [Adran Ymgysylltu â'r Gymuned - Clwb Cymru](#)



5. POBL Y CLWB

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Oes gan y clwb bobl briodol i wneud penderfyniadau teg a chyflawn?</p>	<p>Dylai pwyllgorau / byrddau fod yn gynrychioliadol o'r gymuned leol ac aelodau'r clwb.</p> <p>Er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau teg a chyflawn, dylai clybiau sicrhau nad yw mwy na thri aelod yn perthyn nac yn cyd-fyw a bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei ddatgan.</p> <p>Dylai'r clwb a'r gymuned ehangach fod yn flaenllaw ym meddyliau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau bob amser.</p>	<p>Sefydlwch a oes gan y clwb broses o ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau. Yn ddelfrydol dylid cwblhau hyn yn rheolaidd, gan gofnodi unrhyw newidiadau yn amgylchiadau unigolion.</p> <p>Adolygwch eich cyfansoddiad a phenderfynu a oes angen ei ddiwygio.</p> <p>Dylid datgan a rheoli gwrthdaro buddiannau yn briodol, gan sicrhau nad yw penderfyniadau a wneir o fudd gormodol i unigolion. Mae angen i'r clwb barhau wrth wraidd yr holl benderfyniadau.</p>	
<p>Oes gan y clwb y sgiliau priodol i'w gefnogi nawr ac yn y dyfodol?</p>	<p>Bydd deall pa sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau sydd gan aelodau pwyllgor / bwrdd yn bwysig i benderfynu ar gryfderau, bylchau, cyfleoedd recriwtio posibl ac integriti penderfyniadau.</p> <p>Argymhellir bod aelodau pwyllgor / bwrdd yn cael eu hailethol yn rheolaidd (os yw'r cyfansoddiad a'r erthyglau'n caniatáu). Dylai hyn annog recriwtio 'rheolaidd', asesiad parhaus o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau sydd eu hangen ar hyn o bryd a beth fydd ei angen efallai i gefnogi uchelgeisiau'r clwb, gan gynnwys datblygu'r cyfleuster.</p>	<p>Ystyriwch gwblhau archwiliad sgiliau i ddeall yn well pa sgiliau sydd gennych chi a'r rhai sydd ar goll.</p> <p>Estynnwch allan i'ch cymuned leol neu i grwpiau penodol a allai fod â'r sgiliau hynny sydd ar goll. Efallai y bydd hyn nid yn unig yn helpu i'ch cefnogi chi i arallgyfeirio'ch recriwtio, ond gallai hefyd ddechrau meithrin / cryfhau'ch perthnasoedd.</p> <p>Rhowch amser i adolygu'ch cyfansoddiad / erthyglau. Ydi'r egwyddorion arweiniol hyn yn galluogi'r clwb i asesu a diwygio yn barhaus lle bo angen ac os yw'n briodol?</p>	



5. POBL Y CLWB

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Oes gan y clwb y sgiliau priodol sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol?</p>	<p>Bydd sicrhau bod gan y clwb y sgiliau priodol yn eu lle yn helpu i sicrhau y gellir cyflawni prosiectau ac uchelgeisiau yn y dyfodol ond gallai hefyd arbed amser ac, o bosib, rhywfaint o arian y clwb hefyd.</p>	<p>Bydd cymharu uchelgeisiau'r clwb ynghyd â'r sgiliau cyfredol sydd gan aelodau'r pwyllgor / bwrdd yn helpu i adnabod cryfderau i gefnogi'r uchelgeisiau, ond hefyd y bylchau.</p> <p>Ceisiwch archwilio drwy fusnesau, sefydliadau, canolfannau dysgu a sefydliadau addysgol y cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau presennol y pwyllgor / bwrdd i helpu i uwchsgilio i gefnogi uchelgeisiau a datblygiadau cyfleuster yn y dyfodol.</p>	
<p>Ydi strwythur llywodraethu'r clwb yn caniatáu ar gyfer ethol / ailethol aelodau pwyllgor / bwrdd yn rheolaidd?</p>	<p>Gall galluogi cyfleoedd i benodi aelodau newydd gynorthwyo gyda recriwtio safbwyntiau, syniadau, sgiliau a phrofiadau newydd.</p> <p>Ceisiwch sicrhau bod aelodau'r pwyllgor / bwrdd yn cael eu hethol yn rheolaidd a lle mae'r strwythurau llywodraethu yn caniatáu, bod amser penodol ar gyfer rôl, i atal pŵer rhag cronni gan un neu fwy o aelodau 'hirsefydlog'.</p> <p>Argymhellir na ddylai aelodau wasanaethu am fwy na naw mlynedd.</p>	<p>Adolygwch gyfansoddiad / strwythurau llywodraethu'r clwb ar ethol / ailethol.</p> <p>Gweithiwch gyda'r rhai yn y gymuned leol i gefnogi gyda recriwtio newydd.</p>	

Cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol

- [Recriwtio gwirfoddolwyr – Atebion Clwb](#)
- [Adran wirfoddoli - Clwb Cymru](#)



6. CYLLID Y CLWB

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
Ydi'r clwb wedi'i ddiogelu'n ariannol?	<p>Bydd cael cyfrif banc 'clwb' sy'n dal yr holl arian, heb storio arian mewn cyfrifon personol, yn darparu elfen o ddiogelwch.</p> <p>Dylai cyfrif y clwb fod â dau lofnodwr annibynnol i helpu i liniaru'r risg o dwyll.</p>	<p>Adolygwch brosesau cyllido eich clwb. Oes un prif gyfrif clwb? Sut mae arian yn cael ei gasglu, ei storio a'i wario? Pa fesurau rheoli sydd gennych dros yr arian?</p> <p>Cysylltwch â'ch banc / cymdeithas adeiladu leol i ddeall sut gallwch chi ddiogelu cyllid y clwb yn y ffordd orau.</p>	
Ydi'r clwb yn cwblhau'r gwaith adrodd a monitro cyllid priodol?	<p>Gall adolygu cyllid y clwb yn rheolaidd eich helpu i adnabod risgiau yn gynnar, cefnogi'r clwb i gynllunio'n briodol ar gyfer y dyfodol ac mae'n darparu integriti i'ch aelodau, y gymuned leol a rhanddeiliaid ehangach. Mae cyfathrebu am gyllid yn darparu tryloywder i aelodau mewnol, rhanddeiliaid allanol neu gyllidwyr yn y dyfodol.</p> <p>Yn dibynnu ar y strwythur cyfreithiol a / neu'r statws treth arbennig sydd wedi'i fabwysiadu, efallai y bydd yn ofynnol i'r clwb ddangos y lefel hon o atebolrwydd drwy Dŷ'r Cwmnïau a / neu'r Comisiwn Elusennau.</p>	<p>Dylech sicrhau bod cyfrifon yn cael eu hadolygu'n annibynnol bob blwyddyn.</p> <p>Mae'n bwysig sicrhau bod cyfrifon y clwb yn eitem ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor / bwrdd. Bydd hyn yn annog monitro a thrafod cyllid yn rheolaidd.</p>	



6. CYLLID Y CLWB

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
Sut mae'ch clwb yn cynllunio'n ariannol ar gyfer y dyfodol?	<p>Mae sicrhau bod uchelgeisiau eich clwb yn cyd-fynd â'r cyllid cyfredol a gofynion buddsoddi yn y dyfodol yn helpu i bennu nodau realistig ac yn rhoi eglurder ynghylch yr hyn sydd ei angen yn ariannol.</p> <p>Mae'r math yma o feddwl blaengar yn darparu tryloywder ac yn dangos yn gadarnhaol i aelodau, y gymuned leol, rhanddeiliaid a phartneriaid cyllido allu'r clwb i gynllunio yn unol â hynny a gosod cynaliadwyedd yn flaenllaw o ran meddylfryd.</p>	<p>Cwblhewch ymarfer rhagolygon ariannol, gan benderfynu beth sydd gennych ond yn bwysicach fyth fydd arnoch ei angen efallai.</p> <p>Aseswch y cynllun busnes / uchelgeisiau'r clwb yn rheolaidd ar y cyd â'r cyfrifon ariannol a'r rhagolygon i sicrhau bod y clwb yn aros ar y trywydd iawn.</p>	
Sut mae'ch clwb yn sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn ei fodd?	Mae gweithredu o fewn gallu a chapasiti ariannol y clwb yn allweddol. Bydd cynllunio'n briodol ac adolygu'n rheolaidd yn sicrhau y gall y clwb gadw ar y trywydd iawn gyda'i nodau a'i uchelgeisiau cyffredinol.	<p>Adolygwch y cyfrifon ariannol yn barhaus yn erbyn y rhagolygon ariannol.</p> <p>Mae'n bwysig sicrhau bod cyfrifon y clwb yn cael eu gwneud yn eitem ar agenda cyfarfodydd y pwyllgor / bwrdd. Bydd hyn yn annog monitro a thrafod y cyllid yn rheolaidd.</p>	
Sut mae'r clwb yn ailfuddsoddi ei arian?	Mae ailfuddsoddi'n dangos dyhead y clwb i wella a datblygu. Gallai hyn fod yn y tymor byr neu'r tymor hwy. Mae'n dangos i aelodau a rhanddeiliaid sydd wedi cyfrannu arian bod eu harian wedi'i gyfrannu i gyd-fynd â'r nodau a'r uchelgeisiau sydd wedi'u hamlinellu yn wreiddiol.	<p>Os yw'r clwb yn bwriadu ailfuddsoddi arian y clwb yn ôl yn y clwb neu'r gymuned ehangach, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu hyn.</p> <p>Os ydych chi'n bwriadu cronni arian ar gyfer prosiect yn y dyfodol, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhannu hynny gyda'ch aelodau, y gymuned leol a phartneriaid ehangach. Nid yn unig mae'n dangos tryloywder, ond gallai'r ymwybyddiaeth hefyd arwain at ganlyniadau eraill fel buddsoddiad ychwanegol.</p>	

Cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol

- [Rheoli cyllid - Busnes Cymru](#)
- [Datblygu strategaeth codi arian - WCVA](#)
- [Cyllid cyfatebol - WCVA](#)
- [Cyfrifon a ffurflenni treth ar gyfer cwmnïau cyfyngedig preifat - GOV.UK](#)
- [Sefydlu a gweithredu elusen: Arian, treth a chyfrifon elusen - gwybodaeth fanwl - GOV.UK](#)



7. CYNLLUNIO BUSNES

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
<p>Ydi'ch clwb yn gwybod ble mae nawr a ble mae eisiau bod yn y dyfodol?</p>	<p>Mae cael cynllun / map ffordd manwl yn ei le sy'n cefnogi twf a datblygiad y clwb ar y cae ac oddi ar y cae yn sylfaenol.</p> <p>Nid yn unig y bydd hyn yn darparu cyfeiriad teithio i aelodau'r pwyllgor / bwrdd, ond gall hefyd fod yn ffordd wych o gysylltu â'r gymuned leol a dangos iddynt lle hoffech i'r clwb fod yn y dyfodol.</p>	<p>Dechreuwch drwy fadlewyrchu ar gryfderau'r clybiau, y meysydd i'w gwella, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT). Gallwch hefyd adolygu cynlluniau blaenorol (os oes gennych rai) ac adlewyrchu ar yr hyn a weithiodd yn dda a beth y gellid fod wedi'i wella.</p> <p>O'r fan honno, bydd gennych rai sylfeini i adeiladu arnynt a all fod yn rhan o'ch cynllun busnes, gan gwmpasu gweledigaeth ac uchelgeisiau'r dyfodol ynghyd â 'pherfformiad' cyfredol y clwb.</p> <p>Adolygwch a gweithiwch drwy'r cynllun yn rheolaidd, gan sicrhau bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyfathrebu a bod tryloywder yn cael ei gynnal. Efallai yr hoffech rannu eich cynllun ag unigolion annibynnol i'w adolygu.</p>	
<p>Sut mae'ch clwb yn rhannu ei uchelgeisiau?</p>	<p>Mae rhannu eich dyheadau â'ch aelodau, y gymuned leol a rhanddeiliaid ehangach yn ffordd wych o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb, ond hefyd mae'n llwyfan gwych ar gyfer rhannu adborth, arweiniad a chefnogaeth.</p>	<p>Defnyddiwch blatfformau cyfryngau cymdeithasol a gwefan y clwb i rannu uchelgeisiau'r dyfodol.</p> <p>Trefnwch sesiynau gwranddo i aelodau, y gymuned a rhanddeiliaid i gael eu meddyliau a'u barn ar eich uchelgeisiau - gallai hyn fod wyneb yn wyneb neu'n ddigidol. Anogwch rannu sylwadau ac adborth agored a chadw'r sgwrs yn fyw.</p>	

Cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol

- [Cynllunio Busnes - Busnes Cymru](#)



8. ASESIAID RISG

Beth all ein clwb adlewyrchu arno?	Pam ddylai ein clwb ystyried hyn?	Sut gall ein clwb adolygu a gweithredu?	Wedi'i gwblhau
Ydi'r clwb wedi cwblhau dadansoddiad risg o dwf/ datblygiad yn y dyfodol?	<p>Mae'n bwysig bod unrhyw dwf / datblygiad a gynlluniwyd wedi'i ystyried yn ofalus. Dylid amlinellu'r holl bosibiliadau (cadarnhaol a negyddol) a allai effeithio ar brosiect / rhaglen yn y dyfodol.</p> <p>Gall y broses hon helpu i unioni disgwyliadau, adnabod risgiau cynnar y gallai fod angen eu lliniaru cyn dechrau unrhyw brosiect a darparu rhai amserlenni realistig, o ran arian ac ymrwymiad.</p>	<p>Dylid cwblhau asesiad risg cyn i unrhyw brosiect ddechrau, gyda'r cyfle i feddwl am unrhyw senarios damcaniaethol / risgiau.</p> <p>Mae'n bwysig cofio na fydd yr ymarfer hwn yn helpu'r clwb i ddileu pob risg bosib. Anogir y broses i godi ymwybyddiaeth, rhagweld heriau a rheoli disgwyliadau.</p>	
Oes gan y clwb brofiad o reoli cyfleuster ac a yw'n deall y gofynion a'r ymgymeriad cyfreithiol?	<p>Weithiau gall y cyffro o weithredu / bod yn berchen ar gyfleuster gysgodi gwireddu'r gofynion a'r disgwyliadau ychwanegol. Mae'n hollbwysig rhoi amser i adolygu beth fyddai'r tasgau, y sgiliau a'r prosesau ychwanegol sydd eu hangen i reoli / gweithredu cyfleuster. Y peth olaf rydych chi eisiau ei wneud yw mynd i mewn i brosiect heb adael unrhyw garreg heb ei throi.</p>	<p>Ewch i glybiau pêl droed, sefydliadau chwaraeon neu grwpiau cymunedol eraill sy'n gyfrifol am weithredu / yn berchen ar eu cyfleuster eu hunain. Ceisiwch ddod i ddeall pethau gan y rhai sydd wedi byw ac anadlu'r profiadau hynny. Holwch pa heriau maent wedi'u hwynebu, wedi'u cynllunio yn ogystal â'r rhai heb eu cynllunio.</p>	

Cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol

- [Rheoli risg - NCVO Knowhow](#)



**NI ALLWCH ADEILADU
CLWB GWYCH AR
SYLFEINI GWAN**

